Cyflwyno'r DDEDDF TRWYDDEDU

Rhoi gwybodaeth i chi yn ystod y broses o weithredu Deddf Trwyddedu 2003. AWST 2004

Tessa Jowell.

Croeso'r Ysgrifennydd Gwladol

"Croeso i argraffiad cyntaf Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu, a baratowyd gan dîm Trwyddedu yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i roi gwybodaeth i chi yn ystod y broses o weithredu Deddf Trwyddedu 2003.

Dechreuodd y broses o weithio tuag at y deddfau trwyddedu newydd pan gyhoeddwyd fy Arweiniad ar 7 Gorffennaf 2004. Bydd yr Arweiniad yn gymorth i awdurdodau trwyddedu weithredu'r diwygiadau a ddaw yn sgil y Ddeddf, gan gynnwys oriau agor hyblyg. Gall awdurdodau trwyddedu'n awr baratoi eu datganiadau polisïau trwyddedu, ymgynghori arnynt a'u cyhoeddi. Gallant baratoi ar gyfer y cyfnod trosiannol sy'n cychwyn 7 Chwefror 2005, pan fyddant yn gallu cychwyn prosesu ceisiadau am drwyddedau a thystysgrifau dan y gyfundrefn newydd. Bydd diwygio ein deddfau trwyddedu hynafaidd yn fodd i sicrhau bod canol ein trefi a'n dinasoedd yn fannau mwy diogel, cynaliadwy a bywiog y gall y gymuned gyfan eu mwynhau.

Rwyf yn gwerthfawrogi'n llawn y sialensiau sydd ynghlwm â rhoi deddfwriaeth mor arwyddocaol ar waith, a'r ymdrech sydd ei hangen i baratoi a delio â threfniadau trosiannol. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd **Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu** yn rhoi sylw i feysydd o bryder cyffredinol, yn ceisio eu hegluro ac yn annog awdurdodau i gyfnewid arfer da. Ei nod yw helpu'r rhai fydd â rôl yn y gyfundrefn newydd i ddefnyddio'r cyfleoedd er mwyn sicrhau bod bywyd diwylliannol ac economaidd y wlad yn manteisio i'r eithaf. Mae croeso i'ch cyfraniadau a'ch sylwadau.

Bydd Deddf Trwyddedu 2003 yn rhoi mwy o ddewis i bobl a bydd yn arwain at y newidiadau mwyaf a welwyd yn ein diwydiant hamdden ers 40 mlynedd. Er na fydd newidiadau ar y raddfa hon yn hawdd, rwyf yn gwybod y bydd manteision i bawb yn sgil y cyfleoedd newydd y bydd gan y Ddeddf i'w cynnig."

Y Ddeddf – cyflwyniad

Cafwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Trwyddedu ("y Ddeddf") ar 10 Gorffennaf 2003. Mae'n darparu un cynllun integredig ar gyfer trwyddedu mangre a ddefnyddir i gyflenwi alcohol, i ddarparu adloniant wedi ei reoleiddio a darparu lluniaeth yn hwyr y nos. Bydd caniatâd i gynnal rhai o'r gweithgareddau hyn, neu'r holl weithgareddau, mewn trwydded mangre sengl neu dystysgrif mangre clwb, Mae'r Ddeddf yn disodli chwe chyfundrefn drwyddedu sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn hynny mae'n cael gwared â biwrocratiaeth sylweddol.

Mae'r Ddeddf yn trosglwyddo pwerau i awdurdodau trwyddedu newydd, sef awdurdodau lleol ar y cyfan, gan sefydlu system sy'n fwy atebol yn ddemocrataidd. Am y tro cyntaf, bydd gan drigolion lleol lais mewn penderfyniadau trwyddedu a bydd yr awdurdod trwyddedu'n atebol i'r etholaeth leol am ei benderfyniadau.

Mae'r diwygiadau yn y Ddeddf yn sicrhau cydbwysedd oherwydd byddant yn hybu rhyddid i ddewis yn ogystal â sicrhau diogelwch. Bydd y pwerau'n targedu mangre lle ceir problemau. Bydd oriau agor hyblyg yn helpu i leihau anhrefn cyhoeddus, sydd ar hyn o bryd yn deillio o'r oriau agor sefydlog, a bydd yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd dadreoleiddio'n rhoi mwy o ryddid a dewis i'r mwyafrif cyfrifol ynglŷn â sut maent am dreulio eu hamser hamdden.

Daw'r Ddeddf â'r cyfundrefnau trwyddedu presennol sydd wedi dyddio i ben. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ymateb i gymdeithas fodern, fywiog sy'n haeddu system drwyddedu unedig symlach.

Prif nodweddion y Ddeddf:

- Cyflwyno oriau agor hyblyg ar gyfer mangre, gyda'r potensial i agor hyd at 24 awr – ond gan roi llais i drigolion a busnesau lleol ac awdurdodau sy'n atebol.
- Bydd trwyddedu mangre'n cynnwys amodau (e.e. oriau, allanfeydd tân, niferoedd y gall mangreoedd eu dal) sy'n angenrheidiol er mwyn hybu'r pedwar amcan trwyddedu: atal trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed.
- Y system newydd o drwyddedau personol sy'n ymwneud â chyflenwi alcohol fydd yn galluogi deiliaid i symud rhwng mangre lle mae trwydded mangre mewn grym, yn amodol ar wrthwynebiad yr heddlu os yw'r ymgeisydd wedi'i gyhuddo o droseddau penodol.
- Trwyddedau mangre a roddir gan awdurdodau trwyddedu ar ôl hysbysu a chraffu gan yr heddlu ac awdurdodau atebol eraill. Bydd y rhai sy'n byw ac yn gweithio yng nghyffiniau'r mangre hefyd yn gallu cyflwyno sylwadau.
- System syml o hysbysu ar gyfer gweithgareddau dros dro a ganiateir i awdurdodi digwyddiadau ad hoc ar raddfa fach.
- Cadw statws arbennig ar gyfer clybiau nad ydynt yn gwneud elw sy'n cyflenwi alcohol.

Amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu

10 Gorffennaf 2003	7 Gorffennaf 2004	Awst 2004	7 Chwefror 2005	Tachwedd 2005
Cafwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trwyddedu 2003.	DCMS yn cyhoeddi Arweiniad dan adran 182 o'r Ddeddf. Awdurdodau Trwyddedu'n dechrau paratoi datganiadau polisïau ac ymgynghori arnynt.	DCMS yn cychwyn ymgynghori ar reoliadau drafft.	**Y Dydd a Enwyd – 1af.** Awdurdodau trwyddedu'n dechrau prosesu ceisiadau.	**Y Dydd a Enwyd – 2il.** Hen ddeddfau trwyddedu'n dod i ben. Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb newydd yn dod i rym.

Bydd pob Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu yn cynnwys 'Cwestiynau Cyffredin'.

Yn y rhifyn hwn rydym yn trafod yr Arweiniad a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf gan yr Ysgrifennydd Gwladol, dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

C Beth yw diben yr Arweiniad?

A Mae Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn amod bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi arweiniad i awdurdodau trwyddedu ynglŷn â chyflawni eu swyddogaethau.

C O ble galla i gael copi o'r Arweiniad?

A Mae'n bosibl ei lwytho i lawr o wefan y DCMS ar: www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment

C A all yr Arweiniad ddiystyru neu addasu Deddf 2003?

A Na all. Ni all yr Arweiniad newid y ddeddfwriaeth sylfaenol.

C A yw'r Arweiniad yn orfodol ar gyfer awdurdodau trwyddedu/lleol?

A Ydynt. Dan Ddeddf 2003, mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ystyried yr Arweiniad a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 182.

C A all awdurdodau lleol wyro oddi wrth yr Arweiniad er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol?

A Ni all yr Arweiniad ragweld pob amgylchiad posibl. O gymryd eu bod wedi deall yr Arweiniad yn iawn a rhoi ystyriaeth iddynt, mae'n bosibl i awdurdodau trwyddedu wyro oddi wrth yr Arweiniad, os oes ganddynt reswm cyfreithlon dros wneud hynny. Er hynny, gan ei bod yn ddyletswydd arnynt i ystyried yr Arweiniad, bydd angen iddynt roi rhesymau llawn dros hyn. Byddai hon yn ystyriaeth allweddol i'r llysoedd pe bai gwyro oddi wrth yr Arweiniad yn golygu bod apêl neu adolygiad barnwrol yn deillio ohono.

Dyddiadur digwyddiadau

20-22 Medi
Sioe Tai Bwyta yn yr Olympia yn Llundain [www.therestaurantshow.co.uk]

26 Medi
Gwobrau Blynyddol Cymdeithas Adloniant Bar a Dawns yng Ngwesty'r Metropole Hotel, NEC, Birmingham [www.beda.org.uk]

4 Tachwedd
Cynhadledd y Tafarnwyr yng Nghanolfan Gynhadledd y Frenhines Elizabeth [www.thepublican.com]

16-17 Tachwedd
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ffederasiwn Cymdeithas y Tafarnwyr yng Ngwesty St Nicholas, Scarborough [www.flva.co.uk]

23 Tachwedd
Cynhadledd Flynyddol Busnes mewn Chwaraeon a Hamdden yng Ngwesty'r Royal Lancaster Hotel, Hyde park [www.bisl.org]

Ymgyrch gorfodaeth yr haf

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhan allweddol o strategaeth y Llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Pan fydd mewn grym, bydd yn helpu i leihau problemau anhrefn a niwsans sy'n gysylltiedig ag oriau cau sefydlog i dafarndai, clybiau a mannau eraill sy'n gwerthu alcohol. Y brif neges gan yr holl gyrff arbenigol, gan gynnwys yr heddlu, yw bod trosedd ac anhrefn ar ei waethaf pan ddaw'n amser cau, pryd bydd niferoedd mawr o bobl yn cael eu troi allan ar y strydoedd yr un pryd.

Yr haf hwn mae Uned Safonau'r Heddlu a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn cydlynu ymgyrch o'r newydd i fynd i'r afael â thrais ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol. Bydd yr heddlu'n canolbwyntio ar y rhai sy'n gwerthu alcohol i rai dan 18 oed, bariau a chlybiau sy'n hybu ymddygiad swnllyd ac anghyfrifol a "hwliganiaid meddw" sy'n achosi trais.

Lansiwyd yr ymgyrch ar 8 Gorffennaf a bydd yn rhedeg tan ddiwedd penwythnos Gŵyl y Banc Awst. Bydd gwaith yn cynnwys:

- 'Ymweliadau dirybudd', fel anfon rhai dan 18 oed i siopau trwyddedig a bariau i ddal y rhai hynny sy'n annog yfed dan oed
- 'Enwi a chodi cywilydd' ar siopau trwyddedig anghyfrifol, bariau a chlybiau, ar ôl iddynt gael eu cael yn euog
- Cyhoeddi dirwy o gosb benodol o £40 'yn y fan a'r lle' i bobl sy'n feddw ac afreolus
- Cau mangre swnllyd am hyd at 24 awr

I gael mwy o wybodaeth ewch i wefan y Swyddfa Gartref: www.homeoffice.gov.uk/crime/alcoholrelatedcrime

I weld Canllawiau 'Troseddau treisgar – Mynd i'r Afael â Throseddau Treisgar yn Economi'r Nos, ewch i: www.policereform.gov.uk/psu

Hyrwyddo cerddoriaeth fyw



Bydd y deddfau trwyddedu newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i gerddoriaeth fyw, gan alluogi mwy o bobl i'w mwynhau. Yn y gorffennol roedd yn rhaid i fannau adloniant oedd am hyrwyddo digwyddiadau cerddoriaeth fyw, a chael bar yn ogystal, wneud cais am drwyddedu adloniant ar wahân. Yn y dyfodol dim ond un drwydded sengl fydd ei hangen er mwyn darparu alcohol, adloniant wedi ei reoleiddio a lluniaeth yn hwyr y nos.

Er mwyn helpu mannau adloniant a hyrwyddwyr i lwyfannu digwyddiadau cerddoriaeth fyw, mae Undeb y Cerddorion yn creu "pecyn gwybodaeth cerddoriaeth fyw". Mae hwn yn darparu gwybodaeth am sut i lwyfannu digwyddiadau cerddoriaeth fyw dan y system drwyddedu newydd, manylion cyswllt i gael sioeau a chantorion proffesiynol a gwybodaeth am ddigwyddiadau dros dro a ganiateir. Dosbarthwyd dros 30,000 daflenni yn dwyn y teitl 'Music to your Ears' mewn mannau adloniant ym Mehefin a Gorffennaf, er mwyn cael syniad o faint o alw a fyddai am y "pecyn gwybodaeth" ac i sefydlu Undeb y Cerddorion fel ffynhonnell wrth chwilio am help i drefnu digwyddiadau cerddoriaeth fyw.

Mae'r ymateb hyd yma wedi bod yn arbennig iawn, sy'n arwydd o wir ymrwymiad adloniant cyhoeddus a cherddoriaeth fyw yn arbennig. O ganlyniad mae copïau ychwanegol o'r daflen yn cael eu hargraffu er mwyn ymateb i'r galw.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan Undeb y Cerddorion: www.musiciansunion.org.uk

Rhifyn nesaf – Medi 2004. I gael mwy o wybodaeth am Ddeddf Trwyddedu 2003 a sut bydd yn effeithio arnoch, ewch i'n gwefan ar www.culture.gov.uk. Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer erthyglau anfonwch ebost: licensing.newsletter@culture.gsi.gov.uk

Cynigir cynnwys y tudalennau hyn fel canllaw gwybodaeth yn unig. Nid ydynt yn ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith ac nid ydynt yn cynnwys cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Nid yw unrhyw ddatganiad ar y tudalennau hyn yn disodli, ehangu, diwygio neu newid mewn unrhyw ffordd ddarpariaethau statudol Deddf Trwyddedu 2003 nac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol.
Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon na'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon am unrhyw gamsyniad, esgeulustra neu ddatganiadau camarweiniol ar y tudalennau hyn, nac unrhyw safle y cyfeirir ato ar y tudalennau hyn. Dylid nodyn arbennig, er bod yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir, mae newidiadau yn y gyfraith a'r ffyrdd gweithredu yn golygu na ellir gwarantu bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir.